

# Adroddiad Arholwyr Lefel 3

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Uned 330 ac Uned 331

Haf 2024

© WJEC CBAC Ltd | City & Guilds.

**Cyflwyniad**

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu'r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.[1]

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

**Cefnogaeth bellach**

| Mapio | Disgrifiad | Cyswllt |
|---|---|---|
| Dysgu Proffesiynol / DPP | Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig. | https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/ |
| Cyn-bapurau | Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC |
| Gwybodaeth am ffiniau graddau | Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned.<br><br>Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau. | Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk) |

[1] ***Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Ltd.

| | | |
|---|---|---|
| Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau | Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar Porth CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig.  Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy’n rhoi’r caniatâd i’r staff yn y ganolfan gyrchu’r wefan hon. | Porth CBAC |
| Adnoddau Ystafell Ddosbarth | Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu. | https://adnoddau.cbac.co.uk/ |
| Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol | Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC. |
| Arholi gyda CBAC. | Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu. | Arholi gyda ni \| CBAC |

© WJEC CBAC Ltd.

**Cynnwys**


| | Tudalen |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 5 |
| Uned 330: Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, dysgu, chwarae a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru | 9 |
| Uned 331: Ymchwilio i faterion cyfredol ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru | 15 |
| Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol | 22 |


© WJEC CBAC Ltd.

**Crynodeb Gweithredol**

**UNED 330**

Mae'r fformat, yr arddull a'r mathau o gwestiynau yn y papur hwn yr un fath ag mewn papurau blaenorol ac yn debyg i'r rhai a ddefnyddiwyd yn y papur Deunyddiau Asesu Enghreifftiol. Nid oedd dim cwestiynau annisgwyl, ac ymatebodd yr ymgeiswyr yn dda i'r cwestiynau drwy'r papur i gyd. Roedd y mathau o gwestiynau yn darparu amrediad o gwestiynau tariff is a thariff uwch ar draws cynnwys manyleb uned 300. Roedd y cwestiynau'n profi gallu'r ymgeiswyr i ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o egwyddorion a damcaniaethau testunau 1-5.

Cwblhawyd yr arholiad gyda'r mwyafrif ar-lein a'r gweddill ar gopïau papur. Roedd yr ymatebion a ddarparwyd yn glir ac yn ddarllenadwy ar y cyfan ac roedd arholwyr yn gallu deall fformat y testun. Roedd rhai ymgeiswyr wedi ysgrifennu mewn testun mawr iawn, ac roedd llawer wedi defnyddio taflenni ychwanegol i gwblhau eu hymateb. Roedd rhywfaint o ymgeiswyr wedi darparu nodiadau ond roedden nhw wedi croesi eu hatebion allan felly nid oedd arholwyr yn gallu rhoi unrhyw farciau hyd yn oed os oedd yr ymateb yn gywir. Roedd y cwestiynau'n hygyrch i fwyafrif yr ymgeiswyr ond roedd y cwestiwn damcaniaethwr (9) ar ddull Rudolf Steiner, oedd yn cysylltu â thestun 5 meini prawf 5.1, wedi'i adael yn gwbl wag gan rai canolfannau, gan nad oedd unrhyw wybodaeth gan ymgeiswyr i ymateb.

Roedd amseru'r papur wedi'i wneud yn dda, gan fod y mwyafrif o ymgeiswyr wedi ymateb yn dda ac yn fanwl i'r holl gwestiynau a ddarparwyd. Mae'r cyfle i deipio yn hytrach nag ysgrifennu, drwy gwblhau'r arholiad ar-lein, wedi gwella'r ymatebion i'r cwestiynau. Mae'r cyfle hwn yn helpu i annog ymgeiswyr i ddarparu mwy o eglurder yn eu trafodaethau ac i addasu ac adolygu eu hatebion cyn cyflwyno'n derfynol. Mae llawer o ymgeiswyr yn elwa o allu teipio nag ysgrifennu eu hatebion, ac o gael mwy o le ar gyfer eu hymatebion.

| **Meysydd i'w gwella** | **Adnoddau ystafell ddosbarth** | **Disgrifiad byr o'r adnodd** |
|---|---|---|
| Mae angen i ddysgwyr ddeall damcaniaethau o blentyndod a sut i'w cymhwyso i gwestiynau arholiad | Cefnogi'r gwaith o addysgu damcaniaethwyr plentyndod o fewn manyleb y cymhwyster. Defnyddio adnoddau addysgu meysydd testun gyda'r llawlyfr canllawiau athrawon ar dudalen Dysgu Iechyd a Gofal Cymru ar wefan CBAC | Mae'r adnodd canllaw addysgu'n darparu cynlluniau gwersi i'w defnyddio er mwyn sicrhau bod pob maes cynnwys yn cael ei drafod a'i addysgu i ategu'r ddealltwriaeth o gynnwys y fanyleb a disgwyliadau arholiad. |
| Mae angen i ddysgwyr ddeall pwrpas rôl gweithwyr proffesiynol yn y maes gofal plant | Mae'r adodd canllawiau athrawon a'r dogfennau mapio yn darparu cynlluniau a chanllawiau ystafell ddosbarth rhagorol. | Mae'r ddogfen fapio yn dangos yn glir pob maes ac adnodd y gellir ei rhannu â dysgwyr i gefnogi'r addysgu yn yr ystafell ddosbarth yn ogystal â dealltwriaeth. Mae hefyd yn helpu i gefnogi'r adolygu wrth baratoi at yr arholiad. |

© WJEC CBAC Ltd.

**UNED 331**

Mae'r ymchwiliad estynedig i faterion cyfredol yn y maes gofal, chwarae a datblygiad plant yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ymchwilio i fater cyfoes i'r sector gan ddewis un o'r testunau canlynol i wneud ymchwil iddo:

Testun 1 Gall cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau unigol, grŵp a thîm gefnogi datblygiad cyfannol plentyn.

Ymchwilio i sut gall amgylcheddau hamdden a chwarae gefnogi datblygiad cyfannol plentyn.

Testun 2 Mae dulliau a mentrau'r llywodraeth yn anelu i wneud gwelliannau sylweddol i blant heddiw ac yn y dyfodol.

Ymchwilio i sut mae'r mentrau, canllawiau a/neu ddulliau dysgu gwahanol yn effeithio ar ofal, chwarae, dysg a datblygiad plant.

Mae'r uned hon yn gofyn i ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i leoliadau a chyd-destunau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant, a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i ddadansoddi ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth (eu rhai eu hunain a rhai eraill) o fewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ymchwilio a gwerthuso damcaniaethau ac ymarfer sy'n ymwneud â gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant a myfyrio ar sut gallant ddylanwadu ar ymarfer.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ymgymryd ag ymchwil annibynnol gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau i ymchwilio i'w testun dewisol a'u meysydd ffocws a bydd angen iddynt gasglu tystiolaeth ddigonol a dibynadwy wrth baratoi ar gyfer cwblhau'r tasgau.

**Pwyntiau allweddol Uwch Arholwr:**

Yn gyffredinol, aeth ymgeiswyr i'r afael â'r tasgau gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r disgwyliadau, a strwythurwyd eu hymchwiliad yn briodol er bod gwahaniaethau sylweddol o ran lefel yr ymchwil a ddarparwyd, yn dibynnu ar y dasg a ddewiswyd. Ar y cyfan, roedd ymgeiswyr wedi mynegi lefel dda o fanylion yn eu hysgrifennu, ac roedden nhw wedi darparu ymatebion amrywiol gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth.

Yn aml, roedd ymgeiswyr yn cwblhau eu tasgau a'u meysydd ffocws yn seiliedig ar ganllawiau'r ganolfan a thasg gosod y dosbarth heb ddewis personol yr ymgeisydd. Dylid cwblhau'r ymchwiliad uned 331 yn seiliedig ar ddewis unigol yr ymgeisydd a'i gwblhau yn seiliedig ar ymchwil ymgeisydd unigol i faes pwnc o'i ddewis, gan ganiatáu ar gyfer mynegi barn, safbwyntiau, ystyriaeth bersonol, a phrofiadau ymarferol i gael y rhyddid i ddewis ar gyfer eu tasg a meysydd ffocws.

Mae'r broses marcio arholiad yn gofyn am strwythur penodol i sicrhau eglurder ac ystyriaeth glir o ffiniau marciau gan y tîm arholi ac maent yn feysydd allweddol ar gyfer ymarfer, addysgu a dysgu yn y dyfodol mewn perthynas â strwythur yr ymchwiliad. Bydd y meysydd allweddol canlynol yn cefnogi eglurder ac effeithiolrwydd yr ymchwiliad estynedig ac yn galluogi ymgeiswyr i gael mynediad at yr amrediad o farciau sydd ar gael.

© WJEC CBAC Ltd.

- Teitl a thestun dewisol i'w nodi'n glir ar dudalen gyntaf y papur i sicrhau bod ffiniau'r tasgau'n glir.
- Rhif canolfan ymgeisydd, rhif ymgeisydd a rhifau tudalen ar bob tudalen a gyflwynir.
- Rhaid i dasgau 1, 2, 3, 4, 5, 6 gael eu labelu'n glir i nodi ffiniau tasgau. Ni ellir marcio gwaith heb nodi'r dasg yn glir.
- Ni all ymgeiswyr gynnwys cysylltau at ragor o wybodaeth, arolwg neu holiaduron gan eu bod y tu hwnt i ffin y cynllun marcio. Rhaid trafod unrhyw wybodaeth bellach a geir o ymchwil gyda'r tasgau gosod.
- Sylwch ar y dystiolaeth sydd ei hangen gan gynnwys ystyried y print trwm '**rhaid** cynnwys neu **gallai** gynnwys' i sicrhau bod ymdriniaeth dda â'r cynllun marcio
- Rhaid i drafodaethau am ddeddfau, deddfwriaeth a fframweithiau ymwneud â Chymru a chael eu cyfeirio'n briodol.
- Dylid darparu rhestri cyfeirio ar ddiwedd yr ymchwiliad cyfan.
- Y dull cyfeirio Harvard yw'r dewis priodol ar gyfer cyfeirio.
- Dylai canolfannau ganiatáu unigoliaeth wrth gwblhau'r ymchwiliad.
- Dylid nodi'r cyfrif geiriau yn glir heb gynnwys rhestr cyfeirio a llyfryddiaeth.
- Ni ddylai cyfrif geiriau fod yn fwy na 5500, ni fydd tasgau dros y lwfans hwn yn cael eu marcio.
- Mae'r maes testun yn ganolog i'w holl ymchwiliad. Mae'r papur asesu'n cael ei farcio yn ei gyfanrwydd ac mae'n rhaid iddo gysylltu â thestun dewisol drwy gydol pob tasg.
- Bydd cyflwyno deunydd a gopïwyd yn uniongyrchol o lyfrau neu ffynonellau eraill heb gydnabyddiaeth yn cael ei adael heb ei farcio.
- Dylid osgoi defnyddio tablau a phwyntiau bwled.
- Dylid osgoi profformas, papur arholiad uned 331 yw prif ffynhonnell y canllawiau ar gyfer cwblhau'n llwyddiannus.
- Mae'n ofynnol i ganolfannau uwchlwytho dogfennau Word yn hytrach na dogfennau pdf.
- Dylai ymgeiswyr ond ymgymryd â meysydd trafod y maent yn gallu eu trafod yn effeithiol fel dewis unigol yn hytrach na dewis y ganolfan.
- Dylid ysgrifennu tasgau o safbwynt yr ymgeisydd ac yn y person cyntaf, gan ddisgrifio teimladau a digwyddiadau o'u safbwyntiau nhw.
- Mae angen cwblhau taflenni amser fel y nodwyd ac mae angen eu cyfansymio â nifer yr oriau
- Dylai ymgeiswyr ddewis nifer bach o feysydd ffocws o fewn eu testun dewisol sy'n benodol ac yn realistig i'w cwblhau o fewn cyfrif geiriau'r ymchwiliad
- Dylid osgoi profformas wedi'u symleiddio sydd â chwestiynau amgen gan nad yw meysydd tystiolaeth wedi'u cynnwys yn aml.

© WJEC CBAC Ltd.

| **Meysydd i'w gwella** | **Adnoddau ystafell ddosbarth** | **Disgrifiad byr o'r adnodd** |
|---|---|---|
| Dylid labelu projectau'n glir ar gyfer pob tasg. | Defnyddio cyn-bapurau ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru i roi gwybodaeth am y papurau arholiad i ddysgwyr yn ogystal â'r mathau o destunau a'r dulliau o strwythuro ymchwil o fewn pob tasg i fodloni'r dystiolaeth sy'n ofynnol. | Mae tasgau wedi'u strwythuro'n glir a threfnus, bydd cwblhau ffug arholiadau gyda thasgau penodol cyn yr arholiad yn cefnogi'r ddealltwriaeth o ran strwythuro tasgau a phwysigrwydd nodi bod y tasgau'n barod i'w marcio'n allanol. |
| Dylai dysgwyr gymhwyso meysydd ffocws a amlinellir yn nhasg 1 drwy gydol y tasgau o fewn y project | Defnyddio papurau enghreifftiol ar wefan CBAC Dysgu Iechyd a Gofal Cymru i roi dealltwriaeth glir i'r dysgwyr o strwythur y dasg ymchwil unigol a'r dulliau ymchwil i gwblhau'r meysydd tystiolaeth. | Bwriedir i'r papurau enghreifftiol gefnogi'r dysgwyr sy'n gweithio ar lefelau gwahanol i gael dealltwriaeth o'r disgwyliadau i ennill gradd llwyddiant, teilyngdod neu ragoriaeth, a dealltwriaeth o strwythur y dasg o fewn yr ymchwiliad. |

© WJEC CBAC Ltd.

**GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: YMARFER A THEORI**

**Lefel 3**

**Haf 2024**

**UNED 330: EGWYDDORION A DAMCANIAETHAU SY'N DYLANWADU AR OFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT YN YR 21AIN GANRIF YNG NGHYMRU**

**Trosolwg o'r Uned**

Mae'r fformat, yr arddull a'r mathau o gwestiynau yn y papur hwn yr un fath ag mewn papurau blaenorol ac yn debyg i'r rhai a ddefnyddiwyd yn y papur Deunyddiau Asesu Enghreifftiol. Nid oedd dim cwestiynau annisgwyl, ac ymatebodd yr ymgeiswyr yn dda i'r cwestiynau drwy'r papur i gyd. Roedd y mathau o gwestiynau yn darparu amrediad o gwestiynau tariff is a thariff uwch ar draws cynnwys manyleb uned 300. Roedd y cwestiynau'n profi gallu'r ymgeiswyr i ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o egwyddorion a damcaniaethau testunau 1-5.

Cwblhawyd yr arholiad gyda'r mwyafrif ar-lein a'r gweddill ar gopïau papur. Roedd yr ymatebion a ddarparwyd yn glir ac yn ddarllenadwy ar y cyfan ac roedd arholwyr yn gallu deall fformat y testun. Roedd rhai ymgeiswyr wedi ysgrifennu mewn testun mawr iawn, ac roedd llawer wedi defnyddio taflenni ychwanegol i gwblhau eu hymateb. Roedd rhywfaint o ymgeiswyr wedi darparu nodiadau ond roedden nhw wedi croesi eu hatebion allan felly nid oedd arholwyr yn gallu rhoi unrhyw farciau hyd yn oed os oedd yr ymateb yn gywir. Roedd y cwestiynau'n hygyrch i fwyafrif yr ymgeiswyr ond roedd y cwestiwn damcaniaethwr (9) ar ddull Rudolf Steiner, oedd yn cysylltu â thestun 5 meini prawf 5.1, wedi'i adael yn gwbl wag gan rai canolfannau, gan nad oedd unrhyw wybodaeth gan ymgeiswyr i ymateb.

Roedd amseru'r papur wedi'i wneud yn dda, gan fod y mwyafrif o ymgeiswyr wedi ymateb yn dda ac yn fanwl i'r holl gwestiynau a ddarparwyd. Mae'r cyfle i deipio yn hytrach nag ysgrifennu, drwy gwblhau'r arholiad ar-lein, wedi gwella'r ymatebion i'r cwestiynau. Mae'r cyfle hwn yn helpu i annog ymgeiswyr i ddarparu mwy o eglurder yn eu trafodaethau ac i addasu ac adolygu eu hatebion cyn cyflwyno'n derfynol. Mae llawer o ymgeiswyr yn elwa o allu teipio nag ysgrifennu eu hatebion, ac o gael mwy o le ar gyfer eu hymatebion.

© WJEC CBAC Ltd.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

1. Mae cyfathrebu yn hollbwysig i ddatblygiad plant yn y blynyddoedd cynnar. Awgrymwch sut mae rhieni/gofalwyr yn gallu cefnogi plant i ddatblygu eu lleferydd a’u hiaith yn ystod gweithgareddau pob dydd.

   Roedd yr ymgeiswyr yn gallu ymateb yn glir i'r cwestiwn hwn am ddatblygiad lleferydd ac iaith a darparu ystod o enghreifftiau i ategu eu hawgrymiadau. Ymateb lefel isel oedd ei angen ar gyfer y cwestiwn hwn a oedd yn galluogi'r ymgeiswyr i ddechrau'r arholiad drwy drafod datblygiad ym maes lleferydd ac iaith a phwysigrwydd cyfathrebu drwy brofiadau a gweithgareddau pob dydd. Roedd yr ymgeiswyr wedi darparu ystod o syniadau ac wedi mynegi dealltwriaeth a gwybodaeth glir ynghylch hanfodion datblygiad lleferydd a'r rôl y mae rhieni/gofalwyr yn ei chwarae i gefnogi ffynhonnell gadarn o gymorth ac arweiniad. Cafwyd awgrymiadau hefyd i gefnogi plant sy'n cael anhawster datblygu iaith a lleferydd fel defnyddio iaith arwyddion, Cyfathrebu drwy Gyfnewid Lluniadu (PECs) a datblygu adnoddau i alluogi plant ADY i feithrin sgiliau cyfathrebu pwysig. Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn gallu darparu ystod o gyfleoedd dysgu drwy arferion dyddiol a thrwy ddiwallu anghenion gofal drwy gydol y dydd, fel adeg prydau bwyd, amser bath, wrth wneud tasgau arferol o gwmpas y tŷ ac wrth chwarae. Roedd yr ymgeiswyr wedi gallu ennill marciau lefel uchel am awgrymiadau da a chlir ynghylch sut mae oedolion yn cefnogi plant gyda'u lleferydd a'u hiaith.

2. Mae Cynllun Gwên (Designed to Smile) yn rhaglen genedlaethol ar gyfer gwella iechyd y geg (oral health) plant yng Nghymru. Disgrifiwch y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i wella iechyd y geg plant.

   Roedd yr ymgeiswyr yn gallu disgrifio eu dealltwriaeth o Gynllun Gwên a'r hyn y mae'n ei olygu. Dangoswyd gwybodaeth glir am rôl staff gofal iechyd y geg a sut roeddent yn rhyngweithio â phlant mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu myfyrio ar y brwshys dannedd a'r pastiau dannedd sy'n cael eu darparu fel rhan o'r rhaglen ac roeddent wedi trafod gwerth y rhaglen farnais fflworid i ddiogelu dannedd plant. Trafododd yr ymgeiswyr y gweithgareddau a'r caneuon y byddai'r tîm iechyd y geg yn eu defnyddio gyda'r plant a'r broses a ddilynir wedyn mewn lleoliadau ar sail ymyriad Cynllun Gwên. Trafododd yr ymgeiswyr yr agweddau cadarnhaol ar y rhaglen a'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud nawr a thrwy addysg barhaus ar iechyd y geg.

3. Mae dulliau ymddygiad cadarnhaol yn cefnogi ymarfer pob dydd mewn amrywiaeth o leoliadau gwahanol.

   (a) Esboniwch beth yw effaith cynlluniau gwobrwyo cadarnhaol ar ymddygiad plentyn

   Datblygodd y cwestiwn hwn ystod o ymatebion ynghylch strategaethau ymddygiad a dulliau gwobrwyo a ddefnyddir mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion hynny yn seiliedig ar brofiadau'r ymgeiswyr o weithio gyda phlant a staff proffesiynol. Cafodd cefnogi a galluogi plant i ddysgu drwy brofiadau cadarnhaol eu cydnabod yn glir. Cafwyd esboniadau da a chlir o'r mathau o wobrau a ddefnyddir ac roedd gan yr ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r rhesymau pam y byddai gwobrau yn cael eu rhoi. Cyfeiriwyd at ystod o wobrau, gan gynnwys sticeri, siartiau, gwobrau tîm/dosbarth, tystysgrifau a chofnodion ar-lein i'w rhannu â rhieni/gofalwyr.

© WJEC CBAC Ltd.

(b) Archwiliwch beth yw gwerth rhyngweithiadau oedolyn-plentyn (adult-child interactions) i gefnogi ymddygiad cadarnhaol mewn plant

Mae'r cwestiwn hwn yn barhad o gwestiwn 5 (a) ac yn rhoi cyfle i drafod ymhellach rôl yr ymgeisydd a rôl oedolion eraill wrth annog a chefnogi ymddygiad cadarnhaol. Roedd cwestiwn 5 (b) yn gyfle i archwilio gwerth modelau rôl cadarnhaol a rhyngweithiadau cymdeithasol â phlant. Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr yn gallu esbonio pwysigrwydd datblygu perthynas gadarnhaol â phlant drwy ddefnyddio canmoliaeth ac anogaeth gadarnhaol.

4. Mae rhaglen sgrinio Llywodraeth Cymru yn hybu iechyd a llesiant.

(a) Amlinellwch beth yw gwerth sgrinio rheolaidd sy'n digwydd fel rhan o ofal cyn-enedigol (ante-natal care) yn ystod beichiogrwydd.

Roedd yr ymgeiswyr yn gallu rhoi amlinelliad da o werth sgrinio rheolaidd sy'n digwydd fel rhan o ofal cyn-enedigol yn ystod beichiogrwydd. Amlinellodd yr ymgeiswyr archwiliadau arferol fel pwysau a thaldra'r fam a gwerth monitro gofal y fam gyda phrawf gwaed am gyflyrau fel cyneclampsia ac anemia. Roedd nifer sylweddol o'r ymgeiswyr yn gallu ymdrin yn dda â'r heintiau amrywiol a all niweidio'r fam a'r baban yn y groth, gan amlinellu gwerth profion am hepatitis B, clefyd y crymangelloedd a chlefyd rhesws. Ar y cyfan, cafodd y cwestiwn hwn ei ateb yn glir, yn dda ac mewn ffordd wybodus. Dangoswyd dealltwriaeth gadarn o raglenni sgrinio i hybu iechyd a llesiant.

(b) Crynhowch (summarise) yr effaith pan mae pryderon am iechyd neu ddatblygiad yn cael eu nodi'n gynnar.

Roedd yr ymgeiswyr wedi rhoi crynodeb cadarn o effaith nodi pryderon am iechyd neu ddatblygiad yn gynnar ac wedi trafod sut y gall ymyriadau cynnar mewn perthynas ag anghenion iechyd neu oedi datblygiadol, er enghraifft, wella canlyniadau yn y dyfodol. Cafwyd trafodaethau cadarn ynghylch sut y gall ymyriadau cynnar roi mwy o gefnogaeth a helpu teuluoedd i ddod i delerau â'r goblygiadau posibl o ran iechyd a gallu eu plentyn a'r goblygiadau iddyn nhw fel teulu, a sut y gall ymyriadau cynnar roi amser i brosesu ac, felly, wella cymorth i deuluoedd, iechyd meddwl a help i leihau pryder. Roedd yr ymgeiswyr wedi crynhoi effaith ymyriadau hwyr gan nodi eu bod yn achosi ymatebion arafach sy'n effeithio ar gynnydd hirdymor a chynnydd addysgol. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r testun hwn yn eu hymatebion.

© WJEC CBAC Ltd.

5. Mae cefnogi a herio (challenging) plant sydd ag anghenion ychwanegol yn bwysig i hybu datblygiad a nodau/targedau unigol.

(a) Nodwch amrywiaeth o weithgareddau/adnoddau i gefnogi datblygiad plant sydd â namau ar eu synhwyrau (sensory impairments).

Roedd yr ymgeiswyr yn gallu darparu ystod eang o weithgareddau/adnoddau i gefnogi datblygiad plant sydd â namau ar eu synhwyrau. Roedd rhai o'r ymatebion yn cynnwys adnoddau chwarae cyffyrddol, hambyrddau tywod a dŵr, bag teimlo, cegin fwd a cherddoriaeth ac roedd yr ymgeiswyr yn gallu esbonio sut y gellid defnyddio eu gweithgareddau/adnoddau i gefnogi eu datblygiad synhwyraidd. Roedd rhai ymgeiswyr ond wedi ymateb i ran gyntaf y cwestiwn ac wedi darparu rhestr er bod y cwestiwn yn galw am drafodaeth bellach er mwyn cysylltu hyn â chefnogi datblygiad plant sydd â namau ar eu synhwyrau, fel nodi sut y gall tywod fod o fudd i'r maes datblygiad hwn. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn dda ac yn glir ac roeddent wedi ennill marciau uchel.

(b) Awgrymwch sut mae gweithwyr gofal plant yn gallu cefnogi a herio plant sydd â namau ar eu synhwyrau.

Roedd cwestiwn (b) yn galw am barhad yn seiliedig ar gefnogi a herio plant ag anghenion ychwanegol fel dilyniant o gwestiwn 5 (a). Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr yn gallu cynnig awgrymiadau da a chlir ynghylch sut y gall gweithwyr gofal plant gefnogi a herio plant sydd â namau ar eu synhwyrau. Roedd awgrymiadau'r ymgeiswyr yn myfyrio'n dda ar eu profiadau ymarferol ac yn aml defnyddiwyd enghreifftiau er mwyn egluro eu pwynt trafod mewn perthynas â'u hawgrym. Roedd rhai awgrymiadau'n ymwneud â'r amgylchedd a sut y gall gweithwyr gofal plant geisio lleihau lefel y sŵn yn yr ystafell ddosbarth neu leoli'r plant yn wahanol ar gyfer gweithgareddau â ffocws. Roedd ymatebion hefyd yn ymwneud â chyfathrebu'n glir a defnyddio enw'r plentyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y plentyn yn gwybod bod rhywun yn siarad ag ef. Cyfeiriwyd hefyd at ddefnyddio adnoddau cefnogol amrywiol fel Makaton neu PECs. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn amrywiol a chafwyd ystod dda o ymatebion.

6. Mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cefnogi plant mewn lleoliadau gwahanol. Archwiliwch rôl y nyrs ysgol o ran hybu iechyd plant drwy gydol plentyndod.

Roedd yr ymgeiswyr yn gallu ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn hwn am rôl gofal iechyd drwy gyfeirio at brofiadau personol a phroffesiynol. Ymdriniwyd â meysydd cyson gan archwilio'n glir rôl y nyrs ysgol wrth gwblhau elfennau gwahanol o'r rhaglen mesur plant, brechiadau ac asesiadau sgrinio. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu trafod sut mae'r nyrs ysgol yn hybu iechyd plant drwy gydol plentyndod fel rhan o'i rôl ac, ymhlith y meysydd amrywiol y cyfeiriwyd atynt yn yr ymatebion, rhoddwyd pwyslais ar gyngor, gwybodaeth ac arweiniad iechyd. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu esbonio sut mae'r nyrs ysgol yn rhoi cyngor am ffyrdd iach o fyw a newidiadau sy'n digwydd yn ystod y glasoed. Rhoddwyd ymatebion clir a llwyddodd yr ymgeiswyr i ennill marciau llawn drwy eu hymatebion amrywiol, a oedd yn dangos lefel dda o wybodaeth a dealltwriaeth.

© WJEC CBAC Ltd.

7. Disgrifiwch rôl y Cydlynydd Anghenion Ychwanegol (Additional Needs Coordinator: ANCo/ALNCo) wrth gefnogi dysgu a datblygiad cyfannol plant.

Roedd y cwestiwn hwn yn gyfle i lunio trafodaeth a oedd yn llifo'n dda am rôl y Cydlynydd Anghenion Ychwanegol ac roedd yr ymgeiswyr yn gallu disgrifio'r rôl a'r modd y mae'n cefnogi dysgu a datblygiad cyfannol plant. Ymdriniodd llawer o'r ymgeiswyr â'r cwestiwn hwn ar sail eu profiadau eu hunain o weithio gyda'r Cydlynydd Anghenion Ychwanegol. Roedd yn gadarnhaol iawn darllen hyn ac mae'n dangos dealltwriaeth broffesiynol ac ymarferol o'r rôl. Disgrifiodd yr ymgeiswyr sut mae'r Cydlynydd Anghenion Ychwanegol yn gweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc ag ADY yn y lleoliad, gan ddisgrifio'r rôl drwy weithredu'r fframwaith deddfwriaethol, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r nod o nodi a chefnogi plant a phobl ifanc ag ADY yn gynnar. Myfyriodd yr ymgeiswyr ar y broses o baratoi cynlluniau datblygu unigol a phroffiliau un dudalen er mwyn darparu amgylchedd cynhwysol a chefnogol sydd wedi'i deilwra i anghenion yr unigolyn. Disgrifiodd yr ymgeiswyr y gefnogaeth y mae'r rôl yn ei rhoi i rieni/gofalwyr ar ffurf cyngor a gwybodaeth, ac i staff er mwyn cynllunio a chydlynu gwersi i ddiwallu anghenion dysgwyr.  Mewn rhai achosion, roedd yr ymgeiswyr wedi disgrifio rolau staff eraill ar gam neu wedi rhoi disgrifiad sylfaenol o'r rôl yn unig, ond llwyddodd y mwyafrif llethol ohonynt i roi disgrifiad clir a gwybodus.

8. Mae Gabriella yn 4 oed. Mae ganddi anhawster (difficulty) mewn datblygiad iaith ac mae ganddi atal dweud (stammer).
Ystyriwch y gefnogaeth fyddai’n gallu cael ei rhoi i Gabriella drwy’r gweithwyr proffesiynol iechyd cysylltiedig (allied health professionals: AHP).

Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymgeiswyr ystyried pa gefnogaeth y byddai'r gweithwyr proffesiynol iechyd cysylltiedig yn gallu ei rhoi i blentyn mewn perthynas â datblygiad iaith. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu nodi'n glir mai therapydd lleferydd ac iaith fyddai'r ffynhonnell orau o gefnogaeth i blentyn ag anhawster mewn datblygiad iaith ac sydd ag atal dweud. Ystyriwyd y mathau o gefnogaeth a allai gael eu darparu, fel asesu anghenion Gabriella, cwrdd yn rheolaidd â Gabriella i feithrin perthynas o ymddiriedaeth a chefnogi'r rhieni i helpu Gabriella yn y cartref. Cyfeiriodd yr ymgeiswyr at bwysigrwydd gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill fel y meddyg teulu ac athrawon ysgol er mwyn sicrhau bod anghenion yn cael eu cyfathrebu'n glir a bod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd gyson. Roedd y mathau o gefnogaeth a ystyriwyd yn cynnwys cardiau fflach â lluniau, PECs, defnyddio iaith arwyddion a darparu adnoddau ar gyfer y cartref a'r ysgol. Roedd rhai ymgeiswyr hefyd wedi ystyried y gefnogaeth emosiynol y gall fod ei hangen ar Gabriella am nad yw o bosibl yn cyflawni ei nodau neu'i thargedau yn yr ysgol neu yn y cartref, a allai effeithio ar ei hunan-barch. Ar y cyfan, cafodd y cwestiwn hwn ei ateb yn dda ac ymdriniwyd ag ystyriaethau cadarn ynghylch y gefnogaeth sydd ei hangen ar Gabriella a rhoddwyd marciau uchel am hyn.

© WJEC CBAC Ltd.

9. Aseswch pa mor berthnasol yw dull ysbrydol (spiritual) Steiner o ran llywio ymarfer (informing practice) mewn lleoliadau gofal plant heddiw.

Roedd y cwestiwn hwn yn heriol i lawer o'r ymgeiswyr am nad oedd ganddynt fawr o wybodaeth, os o gwbl, am ddull Steiner ac felly nid oedd modd iddynt ymateb yn briodol. Fodd bynnag, roedd yr ymgeiswyr hynny â gwybodaeth dda am ddull Steiner wedi gallu cyfeirio at ystod eang o bwyntiau trafod yn seiliedig ar sut mae dull Steiner wedi dylanwadu ar ymarfer cyfredol mewn lleoliadau gofal plant. Roedd lefel dda o ddealltwriaeth o'r cyfleoedd i blant ysgogi eu chwarae eu hunain drwy brofiadau a gweithgareddau go iawn fel coginio a garddio. Yn ogystal, asesu perthnasedd profiadau dysgu fel teganau syml a chael diwrnodau cyson a rhagweladwy er mwyn ffurfio arferion dyddiol da. Roedd yr ymgeiswyr wedi mynegi gwybodaeth dda am ddull Steiner a'r modd y mae wedi llywio ymarfer drwy leihau amgylcheddau swnllyd a chael ardaloedd tawel, amlygiad i fyd natur, ardaloedd awyr agored a chefnogi anghenion ysbrydol a theimladau fel diogelwch a hunan-barch.

10. Fel rhan o gynllunio cwricwlwm, trafodwch amrywiaeth o weithgareddau addas i roi profiadau dysgu i blant ar y testun pryfed a bywyd gwyllt.

Roedd yr ymgeiswyr wedi trafod ystod eang o weithgareddau addas ac effeithiol y gellid eu defnyddio mewn lleoliadau er mwyn helpu plant i ddatblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o bryfed a bywyd gwyllt. Roedd yr ymgeiswyr hefyd wedi myfyrio ar brofiadau roeddent wedi'u cael ar leoliad gwaith, fel gerddi bywyd gwyllt a chreu cynefinoedd. Yn ogystal, ystod o weithgareddau i ddatblygu dealltwriaeth o gylch oes creaduriaid a phryfed, storïau, caneuon a rhigymau a defnyddio chwyddwydrau, blychau trychfilod ac arolygon a siartiau trychfilod. Cafwyd rhai ymatebion rhagorol a ddatblygodd yn drafodaethau cadarn ar y testun.

11. Mae’r rhaglen ysgolion eco (eco-schools programme) yn sicrhau bod pob plentyn yn gallu datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â sut i wella eu hysgol a’u hamgylchedd lleol.
Myfyriwch (reflect) ar y cyfleoedd i ddysgu drwy brofiadau moesegol (ethical), cynaliadwy (sustainable) ac ecolegol.

Roedd yr ymgeiswyr yn gallu myfyrio ar ystod o strategaethau moesegol mewn ysgolion i wella'r amgylchedd a'r gymuned a helpu i ddiogelu eu hardaloedd lleol ar gyfer newid hirdymor. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu trafod gweithgareddau a arweinir gan yr ysgol gyfan fel casglu sbwriel, plannu ar dir yr ysgol, a datblygu projectau tyfu mewn tai gwydr. Cafwyd trafodaethau da am leihau gwastraff, cynaliadwyedd ac ailgylchu yn yr ysgol ac yn y cartref. Cafwyd llai o drafodaeth ynghylch materion ecolegol fel addysgu plant am effaith llygredd, gofalu am ein moroedd, a lleihau newid hinsawdd i'r dyfodol.

© WJEC CBAC Ltd.

**GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: YMARFER A THEORI**

**Lefel 3**

**Haf 2024**

**UNED 331: YMCHWILIO I FATERION CYFREDOL YM MAES GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT YNG NGHYMRU.**

**Trosolwg o'r Uned**

Mae'r ymchwiliad estynedig i faterion cyfredol yn y maes gofal, chwarae a datblygiad plant yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ymchwilio i fater cyfoes i'r sector gan ddewis un o'r testunau canlynol i wneud ymchwil iddo:

Testun 1 Gall cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau unigol, grŵp a thîm gefnogi datblygiad cyfannol plentyn.

Ymchwilio i sut gall amgylcheddau hamdden a chwarae gefnogi datblygiad cyfannol plentyn.

Testun 2 Mae dulliau a mentrau'r llywodraeth yn anelu i wneud gwelliannau sylweddol i blant heddiw ac yn y dyfodol.

Ymchwilio i sut mae'r mentrau, canllawiau a/neu ddulliau dysgu gwahanol yn effeithio ar ofal, chwarae, dysg a datblygiad plant.

Mae'r uned hon yn gofyn i ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i leoliadau a chyd-destunau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant, a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i ddadansoddi ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth (eu rhai eu hunain a rhai eraill) o fewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ymchwilio a gwerthuso damcaniaethau ac ymarfer sy'n ymwneud â gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant a myfyrio ar sut gallant ddylanwadu ar ymarfer.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ymgymryd ag ymchwil annibynnol gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau i ymchwilio i'w testun dewisol a'u meysydd ffocws a bydd angen iddynt gasglu tystiolaeth ddigonol a dibynadwy wrth baratoi ar gyfer cwblhau'r tasgau.

**Pwyntiau allweddol Uwch Arholwr:**

Yn gyffredinol, aeth ymgeiswyr i'r afael â'r tasgau gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r disgwyliadau, a strwythurwyd eu hymchwiliad yn briodol er bod gwahaniaethau sylweddol o ran lefel yr ymchwil a ddarparwyd, yn dibynnu ar y dasg a ddewiswyd. Ar y cyfan, roedd ymgeiswyr wedi mynegi lefel dda o fanylion yn eu hysgrifennu, ac roedden nhw wedi darparu ymatebion amrywiol gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth.

Yn aml, roedd ymgeiswyr yn cwblhau eu tasgau a'u meysydd ffocws yn seiliedig ar ganllawiau'r ganolfan a thasg gosod y dosbarth heb ddewis personol yr ymgeisydd. Dylid cwblhau'r ymchwiliad uned 331 yn seiliedig ar ddewis unigol yr ymgeisydd a'i gwblhau yn seiliedig ar ymchwil ymgeisydd unigol i faes pwnc o'i ddewis, gan ganiatáu ar gyfer mynegi barn, safbwyntiau, ystyriaeth bersonol, a phrofiadau ymarferol i gael y rhyddid i ddewis ar gyfer eu tasg a meysydd ffocws.

© WJEC CBAC Ltd.

Mae'r broses marcio arholiad yn gofyn am strwythur penodol i sicrhau eglurder ac ystyriaeth glir o ffiniau marciau gan y tîm arholi ac maent yn feysydd allweddol ar gyfer ymarfer, addysgu a dysgu yn y dyfodol mewn perthynas â strwythur yr ymchwiliad. Bydd y meysydd allweddol canlynol yn cefnogi eglurder ac effeithiolrwydd yr ymchwiliad estynedig ac yn galluogi ymgeiswyr i gael mynediad at yr amrediad o farciau sydd ar gael.

- Teitl a thestun dewisol i'w nodi'n glir ar dudalen gyntaf y papur i sicrhau bod ffiniau'r tasgau'n glir.
- Rhif canolfan ymgeisydd, rhif ymgeisydd a rhifau tudalen ar bob tudalen a gyflwynir.
- Rhaid i dasgau 1, 2, 3, 4, 5, 6 gael eu labelu'n glir i nodi ffiniau tasgau. Ni ellir marcio gwaith heb nodi'r dasg yn glir.
- Ni all ymgeiswyr gynnwys cysylltau at ragor o wybodaeth, arolwg neu holiaduron gan eu bod y tu hwnt i ffin y cynllun marcio. Rhaid trafod unrhyw wybodaeth bellach a geir o ymchwil gyda'r tasgau gosod.
- Sylwch ar y dystiolaeth sydd ei hangen gan gynnwys ystyried y print trwm '**rhaid** cynnwys neu **gallai** gynnwys' i sicrhau bod ymdriniaeth dda â'r cynllun marcio
- Rhaid i drafodaethau am ddeddfau, deddfwriaeth a fframweithiau ymwneud â Chymru a chael eu cyfeirio'n briodol.
- Dylid darparu rhestri cyfeirio ar ddiwedd yr ymchwiliad cyfan.
- Y dull cyfeirio Harvard yw'r dewis priodol ar gyfer cyfeirio.
- Dylai canolfannau ganiatáu unigoliaeth wrth gwblhau'r ymchwiliad.
- Dylid nodi'r cyfrif geiriau yn glir heb gynnwys rhestr cyfeirio a llyfryddiaeth.
- Ni ddylai cyfrif geiriau fod yn fwy na 5500, ni fydd tasgau dros y lwfans hwn yn cael eu marcio.
- Mae'r maes testun yn ganolog i'w holl ymchwiliad. Mae'r papur asesu'n cael ei farcio yn ei gyfanrwydd ac mae'n rhaid iddo gysylltu â thestun dewisol drwy gydol pob tasg.
- Bydd cyflwyno deunydd a gopïwyd yn uniongyrchol o lyfrau neu ffynonellau eraill heb gydnabyddiaeth yn cael ei adael heb ei farcio.
- Dylid osgoi defnyddio tablau a phwyntiau bwled.
- Dylid osgoi profformas, papur arholiad uned 331 yw prif ffynhonnell y canllawiau ar gyfer cwblhau'n llwyddiannus.
- Mae'n ofynnol i ganolfannau uwchlwytho dogfennau Word yn hytrach na dogfennau pdf.
- Dylai ymgeiswyr ond ymgymryd â meysydd trafod y maent yn gallu eu trafod yn effeithiol fel dewis unigol yn hytrach na dewis y ganolfan.
- Dylid ysgrifennu tasgau o safbwynt yr ymgeisydd ac yn y person cyntaf, gan ddisgrifio teimladau a digwyddiadau o'u safbwyntiau nhw.
- Mae angen cwblhau taflenni amser fel y nodwyd ac mae angen eu cyfansymio â nifer yr oriau
- Dylai ymgeiswyr ddewis nifer bach o feysydd ffocws o fewn eu testun dewisol sy'n benodol ac yn realistig i'w cwblhau o fewn cyfrif geiriau'r ymchwiliad
- Dylid osgoi profformas wedi'u symleiddio sydd â chwestiynau amgen gan nad yw meysydd tystiolaeth wedi'u cynnwys yn aml.

© WJEC CBAC Ltd.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Tasg 1**
**Ysgrifennwch gyflwyniad i'ch ymchwiliad estynedig.**

Amlinellwch:
- y prif ffocws; y prif feysydd ffocws rydych chi wedi dewis ymchwilio iddyn nhw mewn perthynas â’r testun rydych chi wedi’i ddewis
- pam rydych chi wedi dewis y testun a’r meysydd ffocws; efallai yr hoffech gyfeirio at ddiddordeb personol, cynnwys a addysgwyd, ymgysylltiad â'r sector a lleoliad gwaith, y dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd gennych
- ffynonellau a ddefnyddiwyd fel rhan o ymchwilio i'r testun a'r meysydd ffocws

Mae'r dasg hon yn gofyn am gyflwyniad penodol i'r ymchwiliad estynedig cyfan. Dylid nodi meysydd ffocws yn glir a dylent fod yn ganolog i'r testun a ddewiswyd. Dylid nodi un neu ddau faes ffocws
gan roi rhesymau dros eu dewis, a all fod yn seiliedig ar brofiadau personol/ymarferol mewn lleoliad gwaith neu amgylchedd dysgu sydd wedi ennyn diddordeb a chodi ymwybyddiaeth i ysgogi ymchwiliad pellach. Mae angen cyfyngu ar y meysydd ffocws i sicrhau y gellir ystyried a gwerthuso'r meysydd ffocws penodol yn drylwyr drwy'r dull amrywiol o ymchwil sy'n gysylltiedig â'r broses gyfan. Dylid nodi tystiolaeth o waith ymchwil a darllen a ddewiswyd yn glir.

Rhoddodd llawer o'r ymgeiswyr amrywiaeth o dystiolaeth i gefnogi eu gwaith ymchwil a gwnaethant gyfeirnodi eu ffynonellau'n briodol i ategu eu hymchwiliad. Yn aml, cyfeiriodd ymgeiswyr at ddeddfwriaeth benodol a llyfrau neu wefannau penodol, cyn esbonio pam y byddai rhagor o waith ymchwil yn y maes hwn o fudd i'w hymchwiliad. Yn gyffredinol, mae'r dull hwn yn cefnogi dealltwriaeth gadarn o'r maes pwnc ac yn rhoi cyflwyniad da i dasg 1.

Yn gyffredinol, roedd yr ymgeiswyr wedi nodi'r testun dewisol (testun 1 neu destun 2) yn glir gan roi cyflwyniad cynhwysfawr i'w rhesymau dros ei ddewis a'r meysydd y byddant yn canolbwyntio arnynt ym mhrif gorff y gwaith ymchwil. Roedd yr ymgeiswyr wedi mynegi ystod dda o destunau i ganolbwyntio arnynt i'w trafod yn fanwl, a fydd yn ffurfio llinyn trafod drwy'r ymchwiliad cyfan. Yn aml, roedd yr ymgeiswyr wedi dewis sawl testun i ganolbwyntio arnynt neu destunau eang iawn ac nid oeddent yn gallu rhoi trosolwg clir o'r meysydd i ganolbwyntio arnynt. Roedd hyn wedi arwain at drosolwg cryno nad oedd yn nodi'r meysydd tystiolaeth yn glir ond roedd ymgeiswyr â meysydd allweddol cadarn a nodau ymchwil penodol wedi gallu bod yn fwy manwl ynghylch eu rhesymau dros ddewis y testunau a'u cysylltu â phrofiadau a dysgu personol. Nid oes llawer o ymgeiswyr yn llunio trosolwg o'r ffynonellau a ddefnyddir fel rhan o'r ymchwiliad na'u gwerth neu ddefnydd.

**Tasg 2**
**Trafodwch y ffordd mae'r testun a ddewiswyd a'r meysydd ffocws gennych yn cefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.**

**Rhaid** i'ch tystiolaeth gynnwys:
- sut mae'r meysydd ffocws yn cefnogi (yn gadarnhaol neu'n negyddol) gofal, dysgu, chwarae a datblygiad plant
- amrywiaeth o safbwyntiau gan gynnwys eich rhai chi a/neu eraill
- enghreifftiau priodol o ddamcaniaeth a/neu ymarfer i gefnogi eich trafodaeth
- sut mae damcaniaeth/deddfwriaeth neu fframweithiau (fel y bo'n briodol) wedi effeithio ar y testun a’r meysydd ffocws
- cyfeiriadau neu ddyfyniadau y gellir eu holrhain i gefnogi tystiolaeth

© WJEC CBAC Ltd.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth o ddamcaniaeth/fframweithiau neu ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r meysydd ffocws a chymhwyso hyn at ymarfer. Dylid ystyried pwyntiau cadarnhaol a/neu negyddol yn ogystal â'u safbwynt eu hunain gan ystyried meddyliau pobl eraill, gallai hyn gynnwys lleoliad gwaith ac ymarfer a welwyd yn ystod profiad lleoliad gwaith y gellir eu defnyddio i gefnogi safbwyntiau. Dylid cynnwys damcaniaeth, deddfwriaeth neu fframweithiau priodol a pherthnasol a fydd yn cefnogi'r drafodaeth. Mae angen i ymgeiswyr gynnwys defnydd effeithiol o gyfeirnodi perthnasol.

Candidates generally provided a good range of discussions for this task and identified a range of evidence areas to be focused on. Topic 2 generally offered the development of different viewpoints and an opportunity for positive or negative reflection of their focus areas, and some included the reflections of practical experiences within their discussion. Generally candidates remained focused on the areas they set out within task 1. Some candidates were unfocused on their choices and did not identify the current schemes, initiatives and/or programmes which the whole investigation would be based on.

Roedd yr ymgeiswyr wedi darparu ystod dda o feysydd a meysydd trafod ar gyfer tasg 2. Roedd tystiolaeth glir yn yr ymatebion o'r gwaith ymchwil a wnaed ynghyd â chysylltiadau cadarn ag enghreifftiau priodol o ymarfer a myfyrdodau penodol ar brofiadau yn y gweithle. Yn gyffredinol, roedd yr ymgeiswyr wedi canolbwyntio ar y meysydd a nodwyd ganddynt yn nhasg 1 ac roeddent wedi gallu mynegi sut mae damcaniaeth, deddfwriaeth neu fframweithiau wedi effeithio ar eu testun dewisol a'u meysydd ffocws. O ran meysydd i'w gwella, byddai'n fuddiol canolbwyntio mwy ar y dystiolaeth ac amrywiaeth o safbwyntiau, mae hyn yn helpu i gysylltu ag ymarfer a phrofiadau personol ac yn gwella'r drafodaeth gyfan yn fawr os gwneir hynny'n dda, a gwelwyd hyn mewn nifer mawr o bapurau yn y gyfres hon.

**Tasg 3**
**Gwerthuswch sut mae'r gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail i'ch testun dewisol a'r meysydd ffocws a ddewiswyd gennych yn cael eu defnyddio yn eich ymarfer i gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.**

**Gallai** eich tystiolaeth gyfeirio at:

- gyfathrebu effeithiol
- gwaith tîm a gweithio ar y cyd
- cydraddoldeb/cynhwysiant/amrywiaeth
- rhyddid i gymryd rhan
- hawliau plant yn cael eu cynnal
- sgiliau proffesiynol neu unrhyw sgiliau eraill fel y bo'n briodol.

Mae'r tasgau hyn yn canolbwyntio ar werthuso amrediad o werthoedd ac egwyddorion. Gellid datblygu'r gwerthusiad drwy ddefnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei meithrin fel rhan o'r cynnwys ac addysgir ynghyd ag enghreifftiau o ymarfer. Roedd ymgeiswyr yn gallu ystyried amrediad o drafodaethau yn ymwneud ag ymarfer ac yn cynnwys pwyntiau clir i fodloni'r rhestr o dystiolaeth y gellid ei chynnwys, megis pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol, gwaith tîm a sgiliau proffesiynol.

© WJEC CBAC Ltd.

Ar gyfer Testun 1 a Thestun 2, cafwyd trafodaethau da ynglŷn â'r meysydd ffocws o ran sut y gall damcaniaethau gefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth o ymddygiad a sut y gall cynlluniau, mentrau a/neu raglenni cyfredol hybu iechyd a llesiant. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu darparu cysylltiadau da â gwerthoedd ac egwyddorion y testun a'r meysydd ffocws a ddewiswyd ganddynt, a ddefnyddir mewn ymarfer i gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.  Roedd y dasg hon yn cynnig y cyfle i fynegi profiadau ac adroddiadau personol o ymarfer proffesiynol y mae'r ymgeiswyr wedi gallu cymryd rhan ynddo neu wedi meithrin gwybodaeth amdano yn ystod profiad seiliedig ar waith. Cafwyd ymatebion wedi'u cysylltu â'r meysydd tystiolaeth allweddol gan rai ymatebwyr, ynghyd â thrafodaethau mwy penodol wrth gyfeirio at y dasg hon yn ei chyfanrwydd.

Roedd yr ymgeiswyr yn gallu mynegi ystod o werthoedd ac egwyddorion eu testun dewisol a'r meysydd ffocws a ddewiswyd ganddynt sy'n cael eu defnyddio mewn ymarfer i gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Cafodd ystod dda o werthoedd ac egwyddorion sy'n ymwneud â'r meysydd tystiolaeth eu nodi a chafodd meysydd ymchwil pellach eu cynnwys hefyd a oedd yn benodol i'r meysydd ffocws a dangoswyd gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr yn yr ymatebion. Roedd y dasg hon yn rhoi cyfle i fynegi profiadau yn y gwaith a phrofiadau personol lle mae'r ymgeiswyr wedi meithrin gwybodaeth am ymarfer a sgiliau sylfaenol.

**Tasg 4**
**Ystyriwch sut mae damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau perthnasol (fel y bo'n briodol) wedi dylanwadu ar ymarfer mewn lleoliadau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.**

**Rhaid** i dystiolaeth gynnwys cysylltiadau clir â sut mae'r damcaniaethau, y ddeddfwriaeth neu'r fframweithiau wedi dylanwadu ar ymarfer yn y lleoliadau rydych wedi'u profi.

Mae'r dasg hon yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gynnwys cysylltau i ddylanwadau damcaniaeth, deddfwriaeth neu fframweithiau perthnasol sy'n ymwneud â Chymru (fel sy'n briodol i ffocws y testun) y gellid eu hystyried; dangos dyfnder ac ehangder dealltwriaeth gan gyfeirio at gryfderau a gwendidau mewn ymarfer. Dylid datblygu tystiolaeth i wneud cysylltiadau clir â'r lleoliad gwaith. Rhaid i ymgeiswyr drafod sut mae deddfwriaeth, fframweithiau a neu safbwyntiau damcaniaethol wedi dylanwadu ar ymarfer cyfredol ac wedi gwneud newidiadau i'r ymarfer mewn lleoliadau plant trwy ddarparu dehongliad o'u profiadau eu hunain o'r effeithiau ar ymarfer proffesiynol.

Roedd yr ymgeiswyr yn gallu ystyried amrywiaeth o ddamcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau perthnasol sy'n gysylltiedig â damcaniaethwr ymddygiadol neu amrywiaeth o gynlluniau, mentrau a rhaglenni sydd wedi'u cyflwyno i gefnogi datblygiad cadarnhaol. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu dangos dealltwriaeth dda o'r ffordd y maent yn cysylltu ag ymarfer. Byddai ymhelaethu pellach a thrafodaethau manylach yn y dasg hon yn helpu dysgwyr i gyrraedd y ffiniau marciau uwch. Mae angen i gyfeiriadau at dystiolaeth ac ymchwil gynnwys cysylltiadau clir â'r ffynonellau a ddefnyddiwyd, ac mae angen iddynt gael eu rhestru yn y rhestr gyfeirio.

Mae'r ymgeiswyr wedi dangos ystod eang o ymchwil i gwblhau tasg 4 a sail dystiolaeth eang i ddarparu cysylltiadau clir â damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau i fynd i'r afael â'u testun dewisol a'u meysydd ffocws. Cafwyd dehongliad clir o'r goblygiadau o ran ymarfer a'r ffyrdd y mae'r meysydd trafod allweddol wedi dylanwadu ar leoliadau a'u profiadau drwy ymarfer seiliedig ar waith. Roedd yr ymgeiswyr a lwyddodd i gyrraedd y bandiau marciau uchaf yn gallu dangos dealltwriaeth dda o'r modd y mae damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau yn cysylltu ag ymarfer, drwy drafodaeth wybodus o'r dylanwadau ar ymarfer gofal plant ac addysgol proffesiynol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Tasg 5**
**Aseswch sut gellir defnyddio gwybodaeth am y testun a'r damcaniaethau a'r deddfwriaethau cysylltiedig a ddewiswyd i sicrhau newid yn y ddarpariaeth gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru.**

**Rhaid** i'ch tystiolaeth:

- Ddangos ymwybyddiaeth o ddulliau ymarfer newydd a datblygol
- Cyfeirio at amrywiaeth o leoliadau yn y sector
- Gwneud penderfyniadau sy'n cysylltu ymarfer â damcaniaeth (ffocws testun, damcaniaethau cysylltiedig a deddfwriaeth)
- Cynnig awgrymiadau ar gyfer newid yn y dyfodol y gellid eu defnyddio mewn ymarfer i gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

**Rhaid** i dystiolaeth gyfeirio at ymchwil a wnaed a **rhaid** iddo ymwneud â phrofiadau mewn ymarfer.

Mae'r dasg hon yn edrych tuag at newidiadau ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar ymchwil a dealltwriaeth yr ymgeisydd o'u testun dewisol a'u meysydd ffocws. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ystyried y wybodaeth y maent wedi'i hennill trwy ymchwilio i'w testun a'u meysydd ffocws cysylltiedig ac asesu sut gellir defnyddio'r damcaniaethau a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig i sicrhau newid mewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Roedd yr ymgeiswyr yn gallu datblygu trafodaethau cadarnhaol am syniadau ynglŷn â chynnydd neu addasiadau ar gyfer y dyfodol y gellir eu hategu er budd gorau plant. Cafwyd trafodaethau yn sgil deddfwriaeth, fframweithiau neu safbwyntiau damcaniaethol newydd. Yn aml, awgrymwyd syniadau neu rhannwyd safbwyntiau blaengar ynglŷn ag ymarferion newydd a'r ffordd y gellir eu datblygu yn y lleoliad a brofir gan y dysgwyr. Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr yn gallu dangos dealltwriaeth dda o gynnydd dulliau newydd ac sy'n datblygu. Nododd ymgeiswyr drafodaethau allweddol yn ymwneud â strategaethau ymddygiadol a'u heffaith ar ymarfer yn y dyfodol, ynghyd â thrafodaethau yn ymwneud â gwerth y modd y gall cynlluniau, mentrau a/neu raglenni cyfredol hybu iechyd a llesiant.

Yn gyffredinol, roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr yn gallu dangos dealltwriaeth dda o gynnydd dulliau newydd ac sy'n datblygu. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu datblygu trafodaethau gwybodus am yr amgylcheddau newidiol a'r dulliau ymarfer sy'n datblygu mewn lleoliadau gofal plant ac addysgol. Roedd yr ymgeiswyr wedi trafod buddiannau newidiadau yn y dyfodol ac yn aml iawn, roeddent wedi pwysleisio angen am newid a ddaeth i'w sylw drwy eu profiadau eu hunain. Yn aml, roedd tasg 5 wedi rhoi cyfle i drafod syniadau blaengar a awgrymwyd gan yr ymgeiswyr i lwyio ymarferion cyfredol a sut y gellir eu datblygu ymhellach mewn lleoliadau gofal plant.

**Tasg 6**
**Trafodwch sut bydd eich ymchwil a'ch dysgu yn cefnogi eich ymarfer unigol eich hun wrth symud ymlaen.**
Rhaid i'ch tystiolaeth gynnwys:

- myfyrio ar werth neu fanteision yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu wrth i chi ymchwilio i'r testun a'r meysydd ffocws
- yr hyn yr hoffech ei wneud, yn seiliedig ar ein canfyddiadau, er mwyn gwella eich ymarfer eich hun yn y dyfodol
- cyfeiriadau at unrhyw effaith y gall newidiadau i'ch ymarfer eich hun eu cael ar ymarfer pobl eraill

© WJEC CBAC Ltd.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr fyfyrio ar eu dysgu personol eu hunain o'r testun a'r meysydd ffocws dewisol. Bydd y myfyrdod hwn yn dod â'r trafodaethau a'r safbwyntiau amrywiol ynghyd drwy gydol yr ymchwiliad cyfan. Bydd ymgeiswyr yn gallu trafod gwerth neu fuddion yr hyn y maent wedi'i ddysgu fel rhan o ymchwilio i'w testun dewisol a'u meysydd ffocws.

Gall ymgeiswyr drafod yr hyn yr hoffent ei wneud yn seiliedig ar eu canfyddiadau i'w galluogi i ddeall ymarfer yn well gyda'r nod o wella eu hymarfer eu hunain yn y dyfodol.
Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gyfeirio at unrhyw effaith y bydd newidiadau yn eu cael ar eu hymarfer eu hunain a'r newidiadau i ymarfer pobl eraill

Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr yn gallu cysylltu'n dda â disgwyliadau meini prawf y dasg hon, a gwnaethant weithio drwy bob pwynt mewn ffordd gyson a chlir. Yn aml, rhannodd yr ymgeiswyr werth a manteision yr hyn y maent wedi ei ddysgu a sut y bydd y wybodaeth newydd yn helpu i gefnogi a llywio ymarfer. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r testun a ddewiswyd ganddynt a mynegi sut y byddai hynny o fudd iddynt fel gweithiwr proffesiynol yn eu hymarfer yn y dyfodol. Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn gallu trafod pwysigrwydd profiadau cadarnhaol yn ymwneud ag ymddygiad a sut y byddant yn ymgorffori hyn mewn ymarfer yn y dyfodol, a thrafod perthnasedd ymchwil yn ymwneud â chynlluniau, mentrau a/neu raglenni cyfredol a all hybu iechyd a llesiant.

Roedd yr ymgeiswyr yn gallu rhannu gwerth y wybodaeth y maent wedi'i meithrin a buddiannau eu hymchwil o ran helpu a llywio ymarfer. Mae'r dasg hon yn rhoi cyfle i grynhoi canfyddiadau ymchwiliadau a'r hyn a ddysgwyd ac yn gyffredinol, llwyddodd yr ymgeiswyr i wneud hynny drwy roi trosolwg trylwyr. Roedd yr ymgeiswyr wedi llwyddo i fynegi dealltwriaeth gadarn o'r hyn a ddysgwyd drwy'r gwaith ymchwil helaeth a myfyrio ar y sgiliau roeddent wedi'u meithrin drwy gynnal astudiaeth fanwl. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu trafod pwysigrwydd defnyddio'r gwaith dysgu ac ymchwil newydd hwn yn eu hymarfer yn y dyfodol a chysylltu â'u testunau dewisol gan gael effaith gadarnhaol ar ymarfer.

© WJEC CBAC Ltd.

## Eich cefnogi chi

### Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: 02920 565320
E-bost: GChDDP@cbac.co.uk
Tudalen pwnc y cymhwyster: www.hclw.co.uk

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Cysylltu â ni | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

### Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: Hyfforddiant a Digwyddiadau i Ddod | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

### Cymwysterau CBAC

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda thros 70 mlynedd o brofiad, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

© WJEC CBAC Ltd.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.